

Ffurflen 2

I'w llenwi gan yr awdurdod priffyrdd lleol

HYSBYSIAD BOD YR AWDURDOD PRIFFYRDD LLEOL WEDI CAEL CAIS I SICRHAU BOD RHWYSTR YN CAEL EI GODI

DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 130A(6)(a)
[Enw'r Awdurdod]

At:

Mae hysbysiad wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod hwn sicrhau bod rhwystr yn cael ei godi o fan lle mae hawl tramwy cyhoeddus. Yr ydym wedi bodloni ein hunain fod y rhwystr o fewn cwmpas adran 130A(2) a (3) o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Statws a lleoliad y briffordd:

Lleoliad y rhwystr: (gan gynnwys cyfeirnod y briffordd, os yw'n hysbys)

Disgrifiad o'r rhwystr:

Rydych wedi eich enwi fel person:

- a all fod yn gyfrifol am y rhwystr; *neu*
- sy'n berchen ar ran neu'r cyfan o'r rhwystr; *neu*
- y mae'r rhwystr am y tro yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth; *neu*
- y gall fod yn ofynnol iddo godi'r rhwystr.

Mae'r Awdurdod yn bwriadu: [disgrifiwch pa gamau, os o gwbl, y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r rhwystr honedig]

Os chi sy'n gyfrifol am y rhwystr, ysgrifennwch at yr Awdurdod i gadarnhau bod y rhwystr wedi'i godi, neu y bydd yn cael ei godi a'r dyddiad y bwriedir ei godi. Os ydych yn credu nad ydych chi yn berson o fath a bennwyd uchod neu os ydych yn credu nad yw'r rhwystr yn un y mae'r ddeddfwriaeth hon yn gymwys iddo, ysgrifennwch at yr Awdurdod gan ddatgan eich rhesymau.

Llofnodwyd..... Dyddiad

NODIADAU AR FFURFLEN 2

Beth yw diben y ffurflen hon?

Mae adran 130A(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn galluogi unrhyw berson i gyflwyno hysbysiad i awdurdod priffyrdd lleol ("yr Awdurdod") yn gofyn bod rhwystr, sydd ar fan lle mae hawl dramwy, yn cael ei godi. Os yw'r rhwystr o fewn cwmpas adran 130A(2) a (3) o Ddeddf Priffyrdd 1980, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymryd camau i sicrhau bod y rhwystr yn cael ei godi.

Mae rhwystr yn dod o fewn cwmpas adran 130A(2) a (3) os yw ar lwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd gyfyngedig neu ffordd a ddangosir ar fap a datganiad diffiniol fel cilffordd gyfyngedig neu gilffordd sy'n agored i bob math o draffig, os yw'r rhwystr heb gael ei awdurdodi'n gyfreithlon ac os yw'n unrhyw beiriant, pwmp, postyn neu rywbeth arall y mae ei natur yn golygu y gall achosi niwsans, neu'n wrych, coeden neu brysgwydden neu lystyfiant o unrhyw ddisgrifiad arall sy'n hongian uwchben man lle mae hawl dramwy yn y fath fodd ag i beryglu cerbydau, cerddwyr a marchogwyr neu eu rhwystro rhag tramwyo.

Mae'r ffurflen hon yn hysbysu'r rhai y canfuwyd mai hwy sy'n gyfrifol am rhwystr fod hysbysiad wedi'i roi i'r Awdurdod arfer ei ddyletswydd i godi'r rhwystr ac yn eu hysbysu o'r camau y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cymryd i sicrhau ei fod yn cael ei godi.

Rhaid cyflwyno hysbysiad o fewn un mis o ddyddiad cyflwyno Ffurflen 1.